

Tasg 2

Ffynnon garegu Gogledd Swydd Efrog

Tasgau trafod a chreadigol

1. Os ydych chi'n caregu pethau, maen nhw'n cadw 'am byth', mewn ffordd.

Dewiswch dri pheth y byddech chi'n hoffi eu caregu, a rhowch resymau pam.

Defnyddiwch y patrymau hyn i ddechrau eich brawddegau.

- Petawn i'n cael dewis caregu pethau, yn gyntaf, byddwn / baswn i'n dewis ...
- Y rheswm am hyn yw ...
- Yn ail, fy newis fyddai / fasai ...
- Byddai / Basai hyn oherwydd ...
- Yn olaf, byddwn / baswn i'n dewis ...
- Byddwn / Baswn i'n gwneud hyn oherwydd ...

2. Edrychwch ar y we i chwilio am fideo neu luniau o'r ffynnon garegu. Ysgrifennwch ddarn disgrifiadol yn seiliedig ar y delweddau. Gallech chi hyd yn oed ddychmygu eich bod chi'n un o'r gwrthrychau sy'n cael eu caregu!

- Cofiwch ddefnyddio'r pum synnwyr
- Defnyddiwch dechnegau fel:
 - ailadrodd, e.e. geiriau fel 'diferu', 'arllwys' / 'tywallt'
 - cymariaethau
 - trosiadau

3. Darllenwch hanes 'Mother Shipton', sy'n gysylltiedig ag ogof ger y Ffynnon Garegu. Crynowch yr hanes yn Gymraeg – ysgrifennwch bwyntiau bwled yn unig wrth ddarllen yr hanes, ac yna adroddwch yr hanes ar lafar.